Confidence in Care
Hyder mewn Gofal

**Cwestiynau cyffredin**

**Cymhwyster ar gyfer hyfforddiant Newidiadau Maethu:**

1 Pa feini prawf a ddefnyddir i ddyrannu lleoedd i ofalwyr maeth?

- **Gofalwyr teulu (gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr maeth nad ydynt yn berthnasau) sydd ar hyn o bryd â phlentyn dros 2 oed wedi'i leoli gyda nhw ac sy'n disgwyl bod yn gofalu am y plentyn hwnnw am o leiaf 12 wythnos.**
- **Gall gofalwyr fod yn ofalwyr yr awdurdod lleol neu wedi'u cyflogi gan asiantaeth annibynnol neu asiantaeth ddielw, ac efallai y bydd ganddynt unrhyw lefel o brofiad fel gofalwyr (e.e. , p'un ai eu bod wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar neu wedi bod yn gofalu ers dros 20 mlynedd).**
- **Mae'n rhaid i ofalwyr fod yn barod i fynychu pob un o'r 12 o sesiynau'r rhaglen.**

3 Pam mae gofalwyr maeth gan ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn cael eu cynnwys yn y rhaglen?

**Nod y rhaglen Hyder mewn Gofal yw gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru drwy: wella sefydlogrwydd lleoliadau drwy well rhyngweithio a lefelau ymlyniad; datblygu agwedd fwy positif tuag at addysg ac amcanion gofalwyr yn y dyfodol; cynyddu dycnwch a sgiliau bywyd; a defnyddio tystiolaeth gadarn o ddysgu a gwerthuso i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yng Nghymru yn y dyfodol. Cyflawnir hyn drwy ddarparu hyfforddiant Newidiadau Maethu i ofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr preswyl. Ni ddylai'r un plentyn mewn gofal fod yn ddifreintiedig oherwydd y lleoliad y gosodwyd nhw ynddo, ac felly mae cylch gwaith Hyder mewn Gofal yn cynnwys gofalwyr awdurdodau lleol a darparwyr gofal maeth annibynnol.**

4 Sut y gwnewch ymgysylltu â gofalwyr, gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr profiadol anodd eu cyrraedd?

**Bydd partneriaid y consortiwm yn gweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol a Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol i sicrhau bod gofalwyr, gofalwyr sy'n berthnasau neu ofalwyr profiadol anodd eu cyrraedd yn cael eu hysbysu'n llwyr am yr hyfforddiant ac yn cael eu hannog i fynychu cyrsiau.**

**Y rhaglen hyfforddi gan Newidiadau Maethu**

1 Sut mae'r rhaglen Hyder mewn Gofal yn cyd-fynd â modelau hyfforddi cyfredol?

**Mae Newidiadau Maethu yn gwrs a gynlluniwyd yn arbennig ac mae wedi'i brofi ei fod yn helpu gofalwyr i ddysgu strategaethau a thechnegau newydd ar gyfer cryfhau cysylltiadau â'r plant y maent yn gofalu amdanynt; yn gwella sefydlogrwydd lleoliadau ac yn eu helpu i oresgyn eu heriau.  Mae Newidiadau Maethu yn cydategu'r ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant i ofalwyr.**

2. Sut y gwnewch chi annog gofalwyr maeth i ymrwymo'u hunain i'r rhaglen 12 wythnos lawn?

**Bydd partneriaid y consortiwm a thîm y prosiect yn gweithio'n agos â staff awdurdodau lleol a gofalwyr i sicrhau bod gwybodaeth am yr hyfforddiant ar gael yn rhwydd, bod trafodaeth cyn cyrsiau yn digwydd a bod hyfforddiant yn hygyrch ac o fewn yr ardal leol.**

3. A fydd hi'n bosibl trefnu grwpiau cymysg o fewn yr awdurdod lleol, e.e., siaradwyr Cymraeg?

**Mae partneriaid y consortiwm ar hyn o bryd yn cyd-drafod ag awdurdodau lleol ynglŷn â darparu'r cwrs hyfforddi; mae angen i ddarpariaeth leol fod o fewn cyrraedd gofalwyr yn ystod yr hyfforddiant ac ar gyfer grwpiau cymorth parhaus.**

4. A fydd hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd?

**Bydd, darperir yr hyfforddiant yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

5. Pa mor bell y disgwylir i ofalwyr deithio i fynychu'r hyfforddiant?

**Darperir hyfforddiant o fewn ardal yr awdurdod lleol; penderfynir ar y lleoliadau wrth gynllunio â'r awdurdod lleol.**

6. A all gofalwyr ddod â'u cymheiriaid ar gyrsiau?

**Gallant, ac fe anogir hyn gan ei fod yn helpu i hyrwyddo rhianta cyson.  Fodd bynnag, dylech ystyried unrhyw anghenion gofal plant y gall hyn eu creu o ganlyniad i'r ddau riant yn mynychu'r cwrs.**

7. A fydd angen trefnu grwpiau ar wahân ar gyfer gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau preswyl?

**Dangosai profiad blaenorol fod grwpiau cymysg o ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau wedi gweithio'n dda.  Fodd bynnag, efallai y bydd hi'n fwy buddiol cynnal grwpiau ar wahân i ofalwyr sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau preswyl.**

8. Beth fydd yn ddigwydd os bydd gofalwyr maeth yn rhoi'r gorau iddi ac yn gadael?

**(Oddi wrth SLAM) Mae'n anghyffredin ac yn anarferol, ond wrth gwrs mae'n digwydd o bryd i'w gilydd.  Bydd yr ymateb yn dibynnu ar y rheswm pam mae gofalwyr yn rhoi'r gorau iddi.  Os, er enghraifft, digwyddodd hynny oherwydd digwyddiadau mewn bywyd nad oedd modd eu hosgoi, ac yn y blaen, yna anogid gofalwyr i ymuno â chwrs arall pan fyddai'n fwy cyfleus.  Os ydynt yn rhoi'r gorau iddi oherwydd gwrthwynebiad (e.e. teimlo bod yr ymrwymiad yn ormod neu nad ydynt yn hoffi gwaith grŵp), yna credwn fod yn rhaid ichi adael iddynt fynd, ac mae hyn yn rhywbeth i'w drafod â'u gweithiwr cymdeithasol goruchwylio.**

9 Beth am hyfforddiant i ofalwyr maeth ategol / aelodau teuluol eraill?

**(Oddi wrth SLAM) Mae'n arfer da os gall teuluoedd a gofalwyr ddefnyddio'r un strategaethau, a byddem yn annog presenoldeb.  I rai teuluoedd, mae'n fwy cyfleus mynychu gwahanol gyrsiau oherwydd trefniadau ymarferol.  I eraill, efallai eu bod yn mynychu'r un cwrs ac mae yna fanteision da i hyn.  Dyletswydd yr hwyluswyr fydd sicrhau eu bod yn trin y rheiny sy'n mynychu'r un cwrs o'r un cartref fel unigolion.**

10 A delir treuliau teithio i ofalwyr maeth?

**Na wneir**

12 A fydd amserlen yr hyfforddiant yn rhoi ystyriaeth i wyliau'r ysgol?

**Bydd, caiff hyfforddiant ond ei ddarparu yn ystod tymor ysgol.**

13 Beth sy'n digwydd os bydd gofalwr maeth yn colli wythnos o'r cwrs?

**(Oddi wrth SLAM) Os yw gofalwr yn colli wythnos o'r cwrs, yna disgwyliem i hwyluswr ffonio'r gofalwr a'i ddiweddaru ynglŷn â'r deunydd a gafodd ei drin yr wythnos honno. Byddent wrth gwrs hefyd yn anfon y taflenni gwybodaeth, ac yn y blaen, i bobl.  Os nad oedd galwad ffôn yn bosibl, yna byddem yn disgwyl iddynt ysgrifennu neu anfon e-bost.**

14 A ellir rhoi deunyddiau a nodiadau ar gael ar-lein fel bod gofalwyr maeth yn gallu gwneud iawn ac yn adennill tir ar ôl colli sesiwn?

**Bydd gwybodaeth am Hyder mewn Gofal ar gael ar-lein.  Bydd yna hefyd fan cynnwys â chyfyngiad arno ar gyfer gofalwyr dan hyfforddiant cofrestredig, sy'n cynnwys deunyddiau cyrsiau gydag adnoddau ar gael yn Gymraeg a Saesneg a fforwm trafodaeth.**

15 Sut y bydd hyfforddwyr yn ystyriol o'r rheiny sy'n newydd i ddysgu neu sy'n ofnus ohono?

**(Oddi wrth SLAM) Mae'r ymweliad cartref cyn i'r cwrs ddechrau yn bwysig iawn ar gyfer ymgysylltu â gofalwyr, yn enwedig y rheiny sy'n newydd i ddysgu neu sy'n ofnus ohono. Mae'n darparu lle a chyfle i archwilio'r materion hynny gyda gofalwr tra ei fod hefyd yn tawelu'u meddwl. Mae cyfarfod â hwyluswr cyn i'r cwrs ddechrau yn golygu bod yna rywun cyfarwydd pan fyddant yn cyrraedd am y tro cyntaf, sy'n rhoi cysur. Mae'r cwrs yn ymarferol ac yn gydweithredol iawn; nid oes a wnelo hyn â bod yn gywir neu'n anghywir. Anogir gofalwyr i roi cynnig ar syniadau, strategaethau a datrys problemau gyda'i gilydd a dod yn grŵp sy'n cefnogi'r naill a'r llall. Gan fod y cwrs dros 12 wythnos, mae hyn yn caniatáu amser i'r rheiny sy'n newydd ac sy'n fwy ofnus i fagu eu hyder.**

16 Faint o amser y disgwylir i ofalwyr maeth ei ganiatáu ar gyfer gwaith cartref?

**(Oddi wrth SLAM) Yn hytrach na gwaith cartref, Ymarfer Cartref yw hwn, a disgwyliwn i bawb sy'n gysylltiedig â Newidiadau Maethu ddefnyddio'r term hwn (yn enwedig fel nad yw'r rheiny sy'n newydd i ddysgu neu sy'n ofnus ohono yn cael eu dieithrio gan derminoleg sy'n gysylltiedig ag ysgol, a allai ddod ag atgofion drwg neu anodd yn eu holau iddynt). Mae'r rhain yn weithgareddau ymarferol i'w gwneud gyda'r plant y maent yn gofalu amdanynt yn ystod eu hoes yn maethu: gall gwahanol weithgareddau gymryd gwahanol hyd o amserau. Nid yw'r ymagweddiad tuag at ymarfer cartref yn absoliwt; fe'i hanogir gan gydnabod y nifer o alwadau cystadleuol sy'n wynebu gofalwyr maeth. Mae'r cwrs yn annog gofalwyr i dreulio o leiaf ddeng munud y diwrnod gyda'u plentyn neu'u person ifanc.**

17 A fydd yna gyfleoedd i ofalwyr fynychu cwrs gyda'r nosau?

**Mae partneriaid y consortiwm ar hyn o bryd yn cyd-drafod y ffordd o ddarparu cyrsiau hyfforddi ag awdurdodau lleol; mae angen i ddarpariaeth leol fod yn hygyrch i ofalwyr yn ystod yr hyfforddiant ac ar gyfer grwpiau cymorth parhaus. Os bydd angen cwrs gyda'r nos, bydd partneriaid yn ystyried hynny wrth ddarparu.**

**Gwerthuso Newidiadau Maethu yn annibynnol**

1 Efallai na fydd rhai cyfranogwyr treial rheoli yn gymwys ar gyfer yr hyfforddiant ar ôl 12 mis – sut y gwnewch reoli hyn?

**(Oddi wrth CASCADE) Efallai nad yw rhai gofalwyr yn gymwys mwyach am hyfforddiant ar ddiwedd y cyfnod astudio o 12 mis – yn bennaf oherwydd nad oes ganddynt mwyach blentyn wedi'i leoli gyda nhw ar hyn o bryd. Hysbysir pob gofalwr am y posibilrwydd hwn pan ofynnir iddynt gymryd rhan yn yr astudiaeth. Nid oes yna reswm sy'n gysylltiedig â gwerthuso dros beidio â chyrchu'r rhaglen ar ddiwedd y cyfnod gwerthuso.**

2 Sut y bydd grwpiau cymorth yn cael eu gwerthuso?

**(Oddi wrth CASCADE) Asesir canlyniadau fel rhan o'r drefn ddilynol arferol a gynlluniwyd yn y treial – hynny yw, bydd y treial yn penderfynu effaith y rhaglen**

**Newidiadau Maethu, gyda'r grwpiau cymorth yn cael eu hystyried fel rhan o'r pecyn cyffredinol a asesir.**

**Bydd y gwerthusiad o broses y treial yn defnyddio cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda detholiad o ofalwyr ar ddiwedd y cyfnod astudio i archwilio'u profiad eu hunain o'r grwpiau cymorth. Bydd y cyfweliadau'n caniatáu i ofalwyr nodi a thrafod yr hyn oedd fwyaf perthnasol ac o fwyaf o ddiddordeb iddynt, yn hytrach na'u cyfyngu i ddim ond yr hyn roedd y tîm ymchwil yn ei gredu a all fod yn bwysig. Byddwn hefyd yn gofyn i'r rheiny sydd wedi bod yn gysylltiedig â hwyluso'r grŵp cymorth am eu profiadau.**

3. Sut y bydd y gwerthuswyr yn caniatáu ar gyfer bod cyfranogwyr hap-brawf wedi'i reoli wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol?

**(Oddi wrth CASCADE) Yn logistaidd, bydd gennym ymchwilwyr yn y maes (staff a gyllidir gan Lywodraeth Cymru) fydd yn mynd at ofalwyr ac yn rhoi caniatâd iddynt. Byddant yn cysylltu â'r tîm ymchwil canolog a chyda thimau maethu'r awdurdodau lleol. Ar ôl casglu data llinell sylfaen drwy gyfweliad wyneb yn wyneb, gwneir yr holl weithgareddau dilynol o bell - naill ai drwy holiadur drwy'r post neu'n electronig.**

**Yn ystadegol, gall atebion oddi wrth ofalwyr fod yn fwy cyffelyb o fewn pob un awdurdod lleol o'u cymharu ag atebion yr holl ofalwyr eraill y tu allan i'r ardal honno. Gall hyn effeithio ar ein gallu i bennu effeithiau oherwydd yr ymyriad. Cyfaddaswn ar gyfer hyn yn ein dadansoddiad ystadegol gan ddefnyddio gweithdrefn o'r enw 'modelu aml-lefel'.**

**Gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol**

1. A oes yna botensial i staff awdurdodau lleol dderbyn hyfforddiant i gefnogi addysg eu gofalwyr maeth?

**Mae trafodaethau â Chymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS) wedi bod yn mynd rhagddynt. Caiff potensial i staff awdurdodau lleol fynychu hyfforddiant gyda gofalwyr ei gynnig i awdurdodau lleol dros hyd oes y rhaglen.**

2. Sut y bydd hyfforddwyr o sefydliadau allanol yn cysylltu ag adrannau hyfforddi mewnol awdurdodau lleol i sicrhau dull cydgysylltiedig o weithio?

**Bydd gan bob awdurdod lleol berson cyswllt dynodedig o fewn sefydliad eu partner cyflenwi fydd yn gweithio'n agos â phersonau cyswllt yr awdurdod lleol i gynllunio ac i ddarparu hyfforddiant.**

3 Mae arnom angen cydweithrediad â'r sectorau iechyd ac addysg er mwyn sicrhau bod eu negeseuon yn gyson â Newidiadau Maethu. Sut y gallwn annog dull cydgysylltiedig o weithio?

**Caiff strategaeth a chynllun cyfathrebu manwl eu rheoli drwy'r rhaglen i gyd er mwyn sicrhau bod ystod o randdeiliaid allweddol yn cael eu hysbysu a'u cynnwys drwy gydol yr amser.**

4 A oes yna unrhyw oblygiadau ariannol i awdurdodau lleol?

Nac oes

5 A gaiff cyllidebau hyfforddi awdurdodau lleol eu torri oherwydd yr hyfforddiant rhad ac am ddim a ddarperir gan y rhaglen?

**Cefnogir hyfforddiant yn llawn gan Gymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan. Mae hyfforddiant yn ychwanegol at ddarpariaeth gyfredol yr awdurdodau lleol.**

6 Beth fydd yr ymrwymiad o ran amser gan awdurdodau lleol i grwpiau cymorth?

**Credwn fod cynnal grwpiau cymorth unwaith bob tymor ysgol gyda diwrnod yn yr haf yn realistig ac yn gyraeddadwy**